# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, The Dental Surgery, Caernarfon

Dyddiad yr arolygiad: 6 Ebrill 2017

Dyddiad cyhoeddi: 7 Gorffennaf 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-4734-9583-8



© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........................................ 8

   Ansawdd profiad y claf ........................................ 9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........................................ 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........................................ 18

4. Beth nesaf? ........................................ 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........................................ 21

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ... 22

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........................................ 23

   Atodiad C – Cynllun gwella ........................................ 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Sicrhau bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn gosod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn rhoi barn wrthrychol ar sail yr hyn yr ydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: rydym yn gweithredu mewn modd effeithlon, effeithiol a chymesurol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal a ddarperir.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog a chefnogi gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Dental Surgery yn 39 Stryd y Capel, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2PS, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 6 Ebrill 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad) ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC i sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o’n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod The Dental Surgery, Caernarfon, yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd.
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis.
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda.
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio Pelydrau-X yn ddiogel.
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio’n briodol.
- Mae systemau ar waith ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth mewn perthynas â gofynion y rheoliadau.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Adolygu ei bolisi presennol ar gyfer ymdrin â chwynion.
- Rhoi system ffurfiol ar waith i gasglu barn cleifion.
- Sicrhau bod archwiliadau rheoli heintiau'n cael eu cynnal yn flynyddol.
- Adolygu polisïau croes-heintio a diogelu.

- Cofnodi mwy o fanylion yng nghofnodion unigol cleifion o ran hanes cymdeithasol a chyngor a roddir am hylendid y geg a diet.

- Sicrhau bod ymylon yr arwynebau gwaith yn yr ystafell driniaeth yn cael eu selio.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

The Dental Surgery, Caernarfon provides services to patients in the Gwynedd area. The practice forms part of dental services provided within the area served by Betsi Cadwaladr University Health Board.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys y prif ddeintydd, nyrs ddeintyddol/derbynnydd, nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle y bo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod y practis hwn yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel ar gyfer ei gleifion. Mae'r deintyddion a'r nyrsys deintyddol wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer, ac maent yn adnabod anghenion eu cleifion yn dda iawn. Cadarnhaodd yr adborth a dderbyniwyd gennym fod y cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 51 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Rwy'n derbyn gwasanaeth ardderchog bob tro, mae'r staff yn barod eu cymwynas ac yn hyblyg'*
>
> *'Rwy'n cael croeso cynnes bob tro gan y staff a [enw'r aelod o staff]. Mae [enw aelod o staff] yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus ac wedi ymlacio bob tro ac mae'n rhoi'r holl wybodaeth i mi sydd ei hangen arnaf am fy nhriniaeth ddeintyddol'*
>
> *'Rwy'n falch iawn gyda fy neintydd a'i staff. Does dim byd yn ormod o drafferth'*
>
> *'Mae'r gwasanaeth mae'r practis yn ei ddarparu'n ardderchog'*
>
> *'Triniaeth ardderchog. Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn hynod o broffesiynol. Byddwn yn argymell y practis hwn i unrhyw un. Rwyf hefyd yn ysmygu ac mae [enw aelod o staff] wedi fy hysbysu am beryglon ysmygu mewn perthynas â chlefyd y deintgig ac o ganlyniad rwy'n ceisio rhoi'r gorau iddi nawr'*

## Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth benodol ar gael ynglŷn â hybu iechyd deintyddol, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai fod o gymorth iddynt wrth ofalu am hylendid y geg eu hunain. Roedd amrywiaeth o bosteri a thaflenni gwybodaeth yn cael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd, a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y man aros a'r dderbynfa.

## Gofal ag urddas

Roedd pob claf yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roedd wedi eu derbyn yn y practis ac roedd pob claf yn teimlo ei fod yn cael croeso gan y staff ac yn cadarnhau ei fod yn cael ei drin â pharch bob amser. Gwelsom hefyd yr agwedd gynnes, gyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ei dangos tuag at gleifion.

Mae gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gynnal sgyrsiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu trin yn breifat, i ffwrdd oddi wrth gleifion.

### Gwybodaeth am gleifion

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiaduron eu bod bob amser yn rhan o'r penderfyniadau a wnaed ynglŷn â'u triniaeth unigol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth.

Mae gan y practis ei daflen gwybodaeth i gleifion ei hun sy'n rhoi manylion i gleifion am oriau agor y practis a manylion cyswllt ar gyfer gofal deintyddol brys y tu allan i oriau.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Mae'r holl staff yn y practis yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog yn effeithiol gyda chleifion. Nododd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiaduron eu bod wedi gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser. O'r 51 a gwblhaodd holiaduron, cadarnhaodd 41 eu bod yn siarad Cymraeg. Mae taflenni iechyd y geg a thaflenni gwybodaeth yn y practis ar gael yn ddwyieithog hefyd.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser. Nododd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiaduron eu bod bob amser wedi cael eu gweld gan ddeintydd ar yr amser cywir.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dangosodd ymatebion o holiaduron cleifion fod yr holl gleifion yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o gyngor am eu triniaeth unigol ac roeddent yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn ac yn teimlo eu bod yn derbyn croeso bob amser.

Caiff hanesion meddygol cleifion eu hadolygu a'u diweddaru ym mhob ymweliad a gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau'n cael eu trafod â chleifion.

### Hawliau pobl

Gwnaethom sylwi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis.

Mae mynediad i'r practis i fyny carreg drws serth a chul sydd ar y brif ffordd. Dywedodd y practis wrthym fod ymdrechion wedi cael eu gwneud i ddarparu mynediad i gadeiriau olwyn. Fodd bynnag, o ystyried lleoliad y garreg drws, nid yw'n bosibl gosod ramp.

Roedd modd i ddefnyddwyr cadair olwyn fynd i'r llawr daear yn y practis gyda chymorth gan y staff ac mae ganddynt fynediad at y dderbynfa, y man aros a'r ystafell driniaeth ddeintyddol.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwnaethom adolygu polisi'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion ac, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion. Mae polisi'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion yn cynnwys triniaeth breifat a thriniaeth y GIG, a gwnaethom gynghori'r practis i adolygu'r polisi, gan sicrhau bod yr amserlenni cywir ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion yn cael eu cynnwys yn unol â'r rheoliadau ar gyfer cleifion preifat ac yn unol â threfniadau 'Gweithio i Wella' ar gyfer cleifion y GIG.

Roedd y weithdrefn ar gyfer cwyno wedi'i harddangos yn glir yn y man aros; roedd hefyd wedi'i hamlinellu yn y daflen 'Gwybodaeth i Gleifion'.

Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion unigol cleifion ac yn derbyn y sylw priodol. Gwnaethom argymell bod y practis yn cofnodi pryderon anffurfiol mewn lòg canolog er mwyn nodi unrhyw themâu cyffredin. Datblygodd y practis lòg canolog a'i roi ar waith yn ystod ein hymweliad arolygu.

Gwnaethom drafod system y practis ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Cawsom wybod gan y practis nad oes system ffurfiol ar waith ar gyfer casglu barn cleifion. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ddatblygu arolwg cleifion er mwyn i gleifion ddarparu adborth. Gwnaethom hefyd gynghori'r practis i arddangos dadansoddiad o'r adborth a dderbynnir yn y man aros/derbynfa i ddangos i gleifion ei fod yn gweithredu yn dilyn adborth a bod adborth yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth yn y practis.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis adolygu ei bolisi cyfredol ar gyfer ymdrin â chwynion i sicrhau bod cleifion yn deall yn glir sut i wneud cwyn am driniaeth breifat a thriniaeth y GIG.

Dylai'r practis roi system ffurfiol ar waith i gasglu barn cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o'r adborth yn cael ei arddangos i'r cleifion ei weld.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân ac roedd yr ystafell driniaeth yn olau ac yn awyrog.

### Gofal diogel

Ni nodwyd unrhyw faterion o sicrwydd ar unwaith yn ystod yr ymweliad arolygu hwn.

#### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Roedd un toiled deuryw at ddefnydd cleifion ac un toiled ar gyfer staff. Roedd arwyddion clir at y ddau gyfleuster ac roeddent i'w gweld yn lân; fodd bynnag, nid oedd unrhyw fin gwastraff glanweithiol yn y toiled ar gyfer staff.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn briodol ac ar adegau rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un ohonynt wedi ei adael mewn mannau cyhoeddus.

Roeddem yn gallu gweld bod system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom hefyd fod y gwastraff wedi cael ei wahanu rhwng y bagiau/cynwysyddion lliw dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Cynghorwyd y practis i sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei ddarparu yn nhoiled y staff.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Nodwyd bod yr archwiliad rheoli heintiau diwethaf wedi cael ei gynnal ym mis Chwefror 2016 a gwnaethom gynghori'r practis yr argymhellir bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn flynyddol.

Roedd polisi penodol ar waith ar gyfer croes-heintio a gwnaethom nodi bod angen ei adolygu. Gwnaethom gynghori'r practis i adolygu'r polisi er mwyn iddo adlewyrchu arfer gwirioneddol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod archwiliadau rheoli heintiau'n cael eu cynnal yn flynyddol.

Dylid adolygu a diweddaru'r polisi croes-heintio er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac roedd y rhain yn cael eu harddangos yn yr holl fannau perthnasol. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol. Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu cadw’n ddiogel, ac roeddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng i sicrhau bod eu dyddiadau dod i ben yn gyfredol a'u bod yn barod i'w defnyddio.

Roedd pob aelod o staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant cyfredol mewn dadebru cardio-pwlmonaidd ac roedd un aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith a oedd yn berthnasol i blant ac oedolion agored i niwed; fodd bynnag, roedd angen diweddaru'r polisi i gynnwys manylion cyswllt cyfredol y tîm diogelu lleol.

Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac roeddent wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen diweddaru'r polisi diogelu i gynnwys manylion cyswllt cyfredol y tîm diogelu lleol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafell driniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafell driniaeth wedi'i chynllunio a'i threfnu i gynorthwyo'r tîm i weithio'n effeithlon ac roedd yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i selio ymylon yr arwynebau gwaith yn yr ystafell driniaeth ac i sicrhau bod unrhyw fannau sydd wedi treulio ar yr ochr yn cael eu hailosod.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel, a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol. Yn ystod ein hymweliad, nid oedd y llythyr yn hysbysu'r Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch am ddiogelwch radiolegol ar gael; fodd bynnag, anfonwyd cadarnhad bod y practis wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch at AGIC yn union ar ôl ein hymweliad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod ymylon yr arwynebau gwaith yn yr ystafell driniaeth yn cael eu selio a sicrhau bod unrhyw fannau sydd wedi treulio ar yr ochr yn cael eu hailosod.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau neu eu trefnu gan y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â staff, cawsom wybod bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Cawsom wybod gan y practis bod cynlluniau eisoes ar waith i ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth a bod hwn ar yr amserlen ar gyfer eu cyfarfod tîm nesaf. Mae'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn ddull o hunanwerthuso, sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Ar hyn o bryd, mae'r practis yn y broses o roi cofnodion papur cleifion ar system gyfrifiadurol ac, yn ystod ein hymweliad arolygu, roedd dros 60% o gofnodion cleifion eisoes wedi cael eu trosglwyddo.

### Cadw cofnodion

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion a oedd yn cynnwys cymysgedd o gofnodion papur a chofnodion cyfrifiadurol.

At ei gilydd, roedd tystiolaeth bod y practis yn gyffredinol yn cadw cofnodion clinigol da, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod angen cofnodi mwy o fanylion yng nghofnodion unigol cleifion o ran hanes cymdeithasol a'r cyngor a roddir am hylendid y geg a diet.

Gwnaethom sylwi hefyd bod diffyg siartio wedi'i ddiweddaru ym mhob cwrs o driniaeth yn y cofnodion papur a chawsom ein hysbysu gan y practis y bydd y diffyg hwn yn cael ei unioni pan fydd gweddill y cofnodion papur yn cael eu trosglwyddo i'r cyfrifiadur.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen cofnodi mwy o fanylion yng nghofnodion cleifion mewn perthynas â hanes cymdeithasol a chyngor am hylendid y geg a diet.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn gydag ymrwymiad cryf i ddarparu triniaeth o ansawdd da ac i roi sylw i fanylion er gwaethaf maint y practis, sy'n gymharol fach.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae The Dental Surgery, Caernarfon, wedi darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Gwynedd ers iddo agor ym mis Gorffennaf 1991.

Gwelsom fod y practis yn darparu arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer ac roedd cydberthynas dda rhyngddynt. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i leisio unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda'r prif ddeintydd neu gyda'i gilydd.

### Staff ac adnoddau

#### Y gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda. Roedd pob aelod o staff wedi cael mynediad at bolisïau a gweithdrefnau; fodd bynnag, nid oedd unrhyw restr wirio ffurfiol fel rhan o raglen sefydlu ar waith ar gyfer staff newydd a gwnaethom gynghori'r practis i ddatblygu a chyflwyno rhestr wirio fel rhan o raglen sefydlu.

Gwelsom hefyd fod staff wedi cael mynediad at amrywiaeth eang o hyfforddiant a oedd yn bodloni gofynion datblygu proffesiynol parhaus, a gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm misol ac arfarniadau staff blynyddol.

Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a'u bod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor

Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrif AGIC y deintydd wedi'i harddangos, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, a gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Fodd bynnag, nid oedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiadau adolygu a/neu'n dangos bod rheolaeth dros y gwahanol fersiynau. Gwnaethom awgrymu i'r practis y dylai sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cynnwys dyddiadau adolygu a/neu reolaeth dros wahanol fersiynau, ac y dylai sicrhau bod yr holl staff yn llofnodi'r polisïau a gweithdrefnau i ddangos eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor ar fynedfa allanol yr adeilad. Roedd enw a chymwysterau'r deintydd hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Cyflwyno rhestr wirio ffurfiol fel rhan o raglen sefydlu ar gyfer staff newydd.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau sydd eu hangen a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad ac mae angen i'r gwasanaeth gymryd camau gweithredu, mae'r rhain wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad.
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynllun gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylder i ddarparu AGIC a'r cyhoedd â sicrwydd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau/unedau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae ein harolygiadau o bractisau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 <http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardsen.pdf>. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made> a <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made> Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, <http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made>a' chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safon aur Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol <https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/yr effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen i'r pryderon hyn dderbyn sylw ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

### Gwasanaeth: The Dental Surgery, Caernarfon

### Dyddiad yr arolygiad: 6 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle mae’n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae’n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni chyflwynwyd unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):Brian Owen

### Swydd: Deintydd

### Dyddiad: 19 Mai 2017

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: The Dental Surgery, Caernarfon

## Dyddiad yr arolygiad: 6 Ebrill 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i roi sylw i'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r practis adolygu ei bolisi cyfredol ar gyfer ymdrin â chwynion i sicrhau bod cleifion yn deall yn glir sut i wneud cwyn am driniaeth breifat a thriniaeth y GIG. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Mae'r polisi cwynion yn cael ei ddiweddaru a bydd arwydd mwy yn cael ei osod ar yr hysbysfwrdd i dynnu sylw at y dogfennau. | Sandra Fox | Cwblhawyd |
| Dylai'r practis roi system ffurfiol ar waith i gasglu barn cleifion a sicrhau bod dadansoddiad o'r adborth yn cael ei arddangos i'r cleifion ei weld. | | Rydym wedi penderfynu y byddwn yn canolbwyntio i ddechrau ar geisio barn ar sut i wella'r profiad aros ac yna byddwn yn symud ymlaen at feysydd eraill. | Brian Owen | Tri mis |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r practis sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei ddarparu yn nhoiled y | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd | Rydym wedi cysylltu â chwmni Initial Medical ynglŷn â gosod y bin gwastraff | Janet Owen | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| staff. | a diogelwch | glanweithiol. | | |
| Dylai'r practis sicrhau bod archwiliadau rheoli heintiau'n cael eu cynnal yn flynyddol.<br>Bydd y polisi croes-heintio yn cael ei adolygu a diweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Mae'r dull archwilio gan Ddeoniaeth Cymru wedi cael ei lawrlwytho.<br>Mae'r polisi yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ôl yr angen. | Brian Owen<br>Sandra Fox | Dau fis<br>Pedair wythnos |
| Mae angen diweddaru'r polisi diogelu i gynnwys manylion cyswllt cyfredol y tîm diogelu lleol. | 2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed | Mae'r polisi'n cael ei ddiweddaru ac mae'r holl fanylion cyswllt newydd wedi cael eu nodi. | Brian Owen | Pedair wythnos |
| Dylai'r practis sicrhau bod ymylon yr arwynebau gwaith yn yr ystafell driniaeth yn cael eu selio a sicrhau bod unrhyw fannau sydd wedi treulio ar yr ochr yn cael eu hailosod. | 2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Mae'r gwaith selio wedi cael ei ail-wneud ac mae'r ochr oedd wedi ei difrodi wedi cael ei hamnewid. | Brian Owen | Cwblhawyd |
| Mae angen cofnodi mwy o fanylion yng nghofnodion cleifion mewn perthynas â hanes cymdeithasol a chyngor am hylendid y geg a diet. | 3.5 Cadw cofnodion | Mae holiadur wedi cael ei lunio i adlewyrchu hyn a bydd yn cael ei roi i gleifion ac yn cael ei drafod yn ystod eu hapwyntiad archwiliad. | Y tîm cyfan | Ar unwaith a hyd at 12 mis wrth i gleifion fynychu |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Cyflwyno rhestr wirio ffurfiol fel rhan o raglen | 7.1 Y gweithlu | Mae hyn wedi'i gyflwyno yn awr. | Sandra Fox | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| sefydlu ar gyfer staff newydd. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Brian Owen**

**Swydd:** **Deintydd**

**Dyddiad:** **19 Mai 2017**